
# Cwmni Theatr Torch Cyf
# Pecyn Recriwtio Aelodau'r Bwrdd
# Hydref 2026



## CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad gan Katrina Marsh, Cadeirydd y Bwrdd | **3** |
| Disgrifiad Cyffredinol o Rôl Aelod o'r Bwrdd | **5** |
| Y Set Sgiliau a Ffefrir ar gyfer y Rownd Recriwtio hon | **8** |
| Cyfrifoldebau Cyffredinol Aelodau'r Bwrdd | **10** |
| Sut mae gwneud cais | **13** |
| Strwythur sefydliadol | **14** |
| Gweledigaeth, Cenhadaeth a Nodau Theatr Torch | **15** |
| Gwybodaeth am Theatr Torch | **16** |
| Gwybodaeth am Aberdaugleddau | **17** |

# CYFLWYNIAD GAN KATRINA MARSH

Annwyl Ymgeisydd Posibl,

Diolch yn fawr iawn am eich diddordeb yn rôl Aelod o'r Bwrdd gyda Theatr Torch Cyf (y Torch). Rydym yn wirioneddol falch eich bod yn cymryd yr amser i ddysgu rhagor am ein gwaith ac i ystyried ymuno â ni ar adeg mor bwysig a chyffrous yn ein taith, wrth i ni symud tuag at nodi ein 50fed Pen-blwydd yn 2027.

Dros y blynyddoedd diweddar, mae'r Torch wedi dod yn fwy uchelgeisiol ac wedi ehangu ei chyrhaeddiad a'i hffaith. Yr hyn a ddechreuodd gyda chred yng ngrym theatr fyw i gysylltu, ysbrydoli a thrawsnewid bywydau, sydd bellach wedi datblygu'n Ganolfan Gelfyddydau ranbarthol – un o ddim ond tri lleoliad yng Nghymru sy'n creu gwaith theatr. Mae'r ganolfan yn gweithio gyda chwmnïau theatr proffesiynol ac amatur, yn ogystal â channoedd o blant, athrawon, pobl ifanc a dysgwyr sy'n oedolion, ac yn ymgysylltu â chymunedau amrywiol ledled Sir Benfro a thu hwnt.

Yn ogystal â Thîm Uwch-reoli (TURh) sydd wedi'i gryfhau a rhaglen waith sy'n dod yn fwyfwy uchelgeisiol, rydym bellach yn ceisio datblygu'r Bwrdd Rheoli (y Bwrdd). Y nod yw canolbwyntio ar ddyfnhau ein heffaith, cryfhau ein cynaliadwyedd hirdymor (yn enwedig o ran cyllid, codi arian a goruchwylio prosiectau cyfalaf), a pharhau i ddangos y rôl hanfodol sydd gan theatr fyw yn gymdeithas heddiw.

Wrth wraidd popeth a wnawn mae'r gred na ddylai mynediad i theatr o safon uchel fyth gael ei bennu gan gefndir, amgylchiadau na daearyddiaeth.

Mae gan y celfyddydau'r gallu i feithrin hyder, cysylltiad, creadigrwydd a llawenydd, ac rydym wedi gweld yn uniongyrchol yn y Torch y gwahaniaeth rhyfeddol yr elfennau yma ei wneud, yn enwedig ym mywydau pobl ifanc.

Rydym felly am benodi Aelodau Bwrdd sydd ag arbenigedd cyllid, codi arian a/neu brosiectau cyfalaf sy'n rhannu'r gred honno ac a fydd yn ein helpu i arwain y Torch gyda chynhesrwydd, uniondeb, eglurder ac uchelgais.

Mae gan y Bwrdd rôl hynod bwysig yn y Torch, gan weithio'n agos gyda'r Uwch-dîm Rheoli i gefnogi'r sefydliad a'i herio'n adeiladol, wrth iddo adeiladu ar ei etifeddiaeth lwyddiannus a pharhau i esblygu.

Rydym yn chwilio am unigolion sy'n dod ag arweinyddiaeth feddylgar a chynhwysol, barn strategol gadarn, ac ymrwymiad diffuant i gydweithio ac agoredrwydd.

Mae Aelodau'r Bwrdd yn helpu i sicrhau llywodraethu cadarn a phwrpas clir, tra hefyd yn gweithredu fel llysgenhadon i'r Torch ac yn ein helpu i feithrin perthnasoedd a chael cymorth ar draws y sector a thu hwnt.

Un o ffocysau'r Bwrdd ar hyn o bryd yw cryfhau sylfaen ariannol y Torch. Mae cyllid grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC) wedi bod yn hanfodol, yn enwedig gan

fod cyllid llywodraeth leol yn lleihau, ac o ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â chynyddu incwm o werthu tocynnau – tra ar yr un pryd yn ceisio sicrhau bod y celfyddydau'n parhau i fod yn fforddiadwy ac ar gael i bawb.

Dros y blynyddoedd i ddod, bydd ein ffocws ar barhau i greu theatr o ansawdd uchel sy'n cael effaith, adeiladu ein cronfeydd wrth gefn, ehangu incwm a enillir, a gwneud y defnydd mwyaf posibl o'r lleoliad a'r amrywiaeth o'r hyn a gynigiwn; yn ogystal â hyn sicrhau cyllid ychwanegol, lle y bo modd, trwy ymddiriedolaethau, sefydliadau a nawdd.

Wrth i ni barhau i weithio i greu sylfaen sy'n gadarn ac yn gynaliadwy hyd yn oed yn fwy ar gyfer y dyfodol, rwy'n mawr obeithio y byddwch yn cytuno bod hwn yn gyfnod cyffrous iawn i'r rhai sy'n caru'r celfyddydau – yn enwedig y theatr – wneud cais i fod yn Aelod o Fwrdd y Torch. Mae'r Torch yn ganolfan hanfodol a bywiog sy'n cefnogi'r gymuned leol ac ecosystem theatr ehangach Cymru, ac mae ganddi gydnabyddiaeth genedlaethol fel grym artistig.

Mae rhagor o wybodaeth amdanom ni ar gael yma: https://www.torchtheatre.co.uk

Diolch eto am eich diddordeb yn ein gwaith. Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch yn ystyried gwneud cais.

Cofion cynnes,

**Katrina Marsh**
**Cadair**
**Bwrdd Rheoli Theatr Torch**
**Hydref 2026**



Torch Theatre Company Ltd: Jack & the Beanstalk 2024

# DISGRIFIAD RÔL GYFFREDINOL AELOD Y BWRDD

**Swydd:** Aelod y Bwrdd, Cwmni Theatr Torch
**Yn adrodd i**: Cadair y Bwrdd
**L;eoliad:** Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73 2BU
**Cyflog:** Gwirfoddol

Sefydlwyd Cwmni Theatr Torch Cyf ym 1977. Mae'n gwmni cyfyngedig sydd â statws elusennol ac nad yw'n dosbarthu elw:

Rhif Cwmni Cofrestredig: 1327289
Rhif Elusen Gofrestredig: 508985

Mae aelodau Bwrdd Theatr Torch yn cyflawni dwy swydd: yn gyntaf, fel Cyfarwyddwr y Cwmni Cyfyngedig, ac yn ail, fel Ymddiriedolwr yr elusen gofrestredig. Mae gan bob rôl bwrpas ychydig yn wahanol, ac fe'i llywodraethir gan ddeddfwriaeth wahanol. Er mwyn sicrhau cysondeb, cyfeirir at Fwrdd Rheoli Theatr Torch fel 'y Bwrdd', ac at Gyfarwyddwr/Ymddiriedolwr fel 'Aelod o'r Bwrdd'.

Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol Aelod o'r Bwrdd yn cynnwys:

- Ar bob adeg, gweithredu er budd gorau'r Torch;
- Peidio â chael budd o swydd Aelod o Fwrdd Torch – ac eithrio i'r graddau a ganiateir gan yr Erthyglau Cymdeithasu; a
- Peidio â rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae eu buddiannau yn gwrthdaro â buddiannau Torch

Waeth beth fo'r ffordd y penodir Aelod o'r Bwrdd, wrth weithredu yn y rôl hon, y prif ddyletswydd yw i'r Torch. Rhaid rhoi pob teyrngarwch arall o'r neilltu.

Yn ei ffurf symlaf, bydd rôl Aelod o Fwrdd Torch yn cynnwys:

- Derbyn asedau gan roddwyr;
- Diogelu'r asedau hynny; a'u
- Defnyddio at ddiben elusennol yn unol â dymuniadau'r rhoddwr.

Yn ymarferol, mae hon yn gyfrifoldeb difrifol sy'n gofyn i chi chwarae rhan weithredol yn llywodraethu'r sefydliad.

**Aelod o Fwrdd Torch:**

- Yn gwneud y penderfyniadau mawr ynghylch dyfodol Theatr Torch;
- Yn sicrhau bod popeth yn gyfreithlon ac yn ddiogel;
- Yn cefnogi'r Uwch-dîm Rheoli (SMT), sy'n cael ei arwain ar hyn o bryd gan y Cyfarwyddwr Artistig, sydd hefyd yn Brif Weithredwr Dros Dro;
- Yn eiriolwr gweithredol dros y Torch;
- Sicrhau bod gwaith Theatr Torch yn cael ei gyflawni;
- Sicrhau bod Bwrdd y Torch yn gyfredol ac yn fedrus; ac yn
- Parchu'r ffin rhwng gweithgarwch gweithredol a rôl Aelod o Fwrdd Torch

**Mae Aelod o'r Bwrdd yn rhwym o:**

- Gweithredu er budd pennaf buddiolwyr Theatr Torch;
- Gweithredu gyda'i gilydd fel grŵp yn hytrach nag fel unigolion;
- Rhoi eu buddiannau personol o'r neilltu;
- Ysgwyddo cyfrifoldeb cyfreithiol dros y sefydliad;
- Rheoli materion y cwmni yn unol â'i Erthyglau Cymdeithasu a'r gyfraith (Deddf Cwmnïau 1985, fel y'i diwygiwyd ym 1989 ac yn ddiweddarach); ac
- Ymarfer y ddyletswydd gofal y byddai person busnes darbodus yn ei harfer wrth ofalu am faterion unigolyn yr oedd ganddyn nhw gyfrifoldeb drosto

**Cadw'n gyfredol**

Bydd angen i chi hefyd gadw'n gyfredol â rheoliadau, cyfraith elusennau ac, lle bo'n briodol, cyfraith cwmnïau, yn ogystal ag argymhellion ar arferion gorau.

Mae'r Datganiad o Arferion a Argymhellir (SORP) ar gyfer cyfrifeg elusennau yn ofyniad.

Ni ddisgwylir i Aelodau'r Bwrdd fod yn arbenigwyr ar bopeth. Os bydd ansicrwydd ynghylch beth i'w wneud, ceisir cyngor proffesiynol priodol.

**Aelodaeth**

Yn ogystal ag Aelodau etholedig y Bwrdd, mae gan Gyngor Sir Benfro hawl i enwebu tri Aelod Bwrdd i weithredu fel aelodau llawn o'r Bwrdd. Mae gan Gyngor Tref Aberdaugleddau hawl i enwebu un Aelod Bwrdd. Uchafswm nifer yr Aelodau Bwrdd etholedig yw deuddeg.

**Presenoldeb mewn cyfarfodydd**

Disgwylir i Aelodau'r Bwrdd wneud pob ymdrech i fynd i gyfarfodydd y Bwrdd. Ar hyn o bryd, cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd tua'r trydydd Dydd Iau o bob mis (ac eithrio mis Mai a mis Rhagfyr, pan nad oes cyfarfod). Yn ogystal, ceir grwpiau gweithio bach, a benodir gan y Bwrdd, sydd â therfyn amser ac a ffurfir yn ôl yr angen er mwyn datblygu meysydd gwaith penodol ar ran y Bwrdd.


**Ymrwymiad amser**

- Tua dwy awr o ddarllen wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod
- Cyfarfod Bwrdd o tua dwy awr bob mis
- Cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen (gan gynnwys grwpiau gweithio posibl)
- Disgwylir ymrwymiad amser ychwanegol gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd

**Y grwpiau gweithio presennol yw:**

- Gweithgor Strwythur Staff
- Gweithgor Recriwtio Aelodau Bwrdd

Torch Theatre Company: Private Lives 2023



# SGILIAU A PHROFIAD A FFEFRIR AR GYFER Y ROWND RECRUTIO HON

Ar gyfer y rownd recriwtio hon, mae'r Bwrdd yn awyddus yn benodol i benodi Aelodau Bwrdd newydd a all ddod ag arbenigedd mewn cyllid, codi arian a/neu brosiectau cyfalaf. Mae'r meysydd hyn wedi'u nodi fel rhai pwysig ar gyfer cryfhau cynaliadwyedd hirdymor, gwydnwch ac effaith y Torch, wrth i'r sefydliad barhau i ddatblygu ei uchelgeisiau artistig, elusennol a chymunedol.

Ni ddisgwylir i ymgeiswyr fodloni pob pwynt a restrir isod. Mae'r Bwrdd yn croesawu unigolion sydd â phrofiad proffesiynol uniongyrchol, sgiliau trosglwyddadwy, a barn strategol, ac ymrwymiad i lywodraethu a arweinir gan werthoedd. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu cynnig her a chefnogaeth adeiladol i'r Cadeirydd, cyd-aelodau'r Bwrdd a'r Uwch-dîm Rheoli (SMT),ac yn parchu'r gwahaniaeth rhwng llywodraethu ar lefel y Bwrdd a darpariaeth weithredol.

**Arbenigedd ariannol**

- Goruchwyliaeth ariannol strategol, gan gynnwys y gallu i adolygu cyllidebau, cyfrifon rheoli, rhagolygon, gwybodaeth llif arian ac adroddiadau ariannol;
- Dealltwriaeth o gyllid elusennol, cronfeydd cyfyngedig a heb eu cyfyngu, cronfeydd wrth gefn, cyllid cyhoeddus, amodau grant a chyfrifoldebau ariannol ymddiriedolwyr;
- Profiad o lywodraethu ariannol, archwilio, rheolaethau mewnol, rheoli risg a gweithdrefnau ariannol cymesur;
- Yn gallu cefnogi cynllunio busnes, modelu senario, arallgyfeirio incwm a chynaliadwyedd ariannol hirdymor; a'r
- Hyder i esbonio gwybodaeth ariannol yn glir fel y gall y Bwrdd cyfan wneud penderfyniadau gwybodus

**Arbenigedd codi arian**

- Arweinyddiaeth strategol mewn codi arian, gan gynnwys profiad o ddatblygu neu gynghori ar strategaethau codi arian sy'n cefnogi twf a gwydnwch sefydliadol;

- Gwybodaeth am ymddiriedolaethau a sefydliadau, ceisiadau am grantiau, adrodd gan gyllidwyr a stiwardiaeth effeithiol;
- Profiad o nawdd corfforaethol, partneriaethau, rhoi unigol, rhoddwyr mawr, ymgyrchoedd codi arian neu godi arian cymunedol;
- Yn gallu helpu i lunio achos cymhellol dros gefnogaeth, a thynnu ar uchelgais artistig y Torch, pwrpas elusennol, effaith gymunedol ac angen ariannol; ac
- Ymwybyddiaeth o godi arian moesegol, rheoleiddio elusennau, cyfyngiadau rhoddwyr, diwydrwydd dyladwy a risg i enw da

**Arbenigedd mewn prosiectau cyfalaf**

- Profiad o lywodraethu prosiectau cyfalaf, gan gynnwys goruchwylio adeiladu, adnewyddu, cyfleusterau, seilwaith neu brosiectau gwella mawr;
- Dealltwriaeth o gynllunio prosiectau, caffael, penodi contractwyr, rheoli contractau, monitro a gwerthuso;
- Yn gallu craffu ar gyllidebau prosiectau, cynlluniau cost, argyfyngau, llif arian, gwerth am arian a risg ariannol;
- Ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch, hygyrchedd, dylunio cynhwysol, cynaliadwyedd, cyfrifoldeb amgylcheddol a chydymffurfedd adeiladau cyhoeddus; ac
- Yn gallu cefnogi achosion busnes cryf, meddwl am ddichonoldeb, ymgysylltu â rhanddeiliaid a stiwardiaeth hirdymor o adeilad ac asedau'r Torch

Gall ymgeiswyr ddod ag arbenigedd mewn un neu fwy o'r meysydd hyn. Anogir siaradwyr Cymraeg a phobl sydd â phrofiadau bywyd amrywiol yn gryf i wneud cais, yn enwedig lle gall eu sgiliau, eu rhwydweithiau a'u profiad helpu'r Torch i gryfhau ei wydnwch ar gyfer y dyfodol a dyfnhau ei gysylltiad â chymunedau ledled Sir Benfro a thu hwnt.

# CYFRIFOLDEBAU CYFFREDINOL AELOD BWRDD

Er gwaethaf darpariaethau cyffredinol yr Erthyglau Cymdeithasu a'r Llawlyfr Llywodraethu (mae copïau ar gael ar gais) (Saesneg yn unig), mae gan y Bwrdd gyfrifoldebau penodol fel a ganlyn:

**Gweithrediad effeithiol y Bwrdd**

- Sefydlu'r strwythur llywodraethu a chytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer gweithgorau, penodiadau iddynt, ac enwebiadau i gyrff eraill, yn briodol ac yn ôl yr angen.
- Pennu'r weithdrefn ar gyfer penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd, a chytuno ar dymor y penodiad a'r cyfnod adolygu, fel y nodir yn y Llawlyfr Llywodraethu a gymeradwywyd gan y Bwrdd.
- Sicrhau gweithdrefnau penodi tryloyw ac agored ar gyfer Aelodau'r Bwrdd.
- Cymeradwyo penodiad Aelodau newydd i'r Bwrdd.
- Codi a chytuno ar eitemau i'w trafod mewn cyfarfodydd, gan gynnwys polisïau sydd i'w hadolygu.

**Cynllunio strategol**

- Cytuno ar ddatganiad cenhadaeth a'i fabwysiadu.
- Cytuno ar broses cynllunio busnes a chylch cynllunio, ac adeiladu arnynt.
- Sicrhau nodau artistig a'u mabwysiadu.
- Cytuno ar y Polisi Artistig.
- Cytuno ar Gynlluniau Strategol a pholisïau gweithredol.
- Cymeradwyo'r Cynllun Busnes Blynyddol.
- Adolygu cwmpas a chydymffurfedd cytundebau cyllido a/neu Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda chyllidwyr a phrynwyr gwasanaethau.
- Cymeradwyo fframwaith y rhaglen flynyddol a'r gyllideb.

**Polisi**

- Penderfynu ar bolisïau sy'n amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd a sefydlu rhaglen adolygu polisïau.
- Sicrhau cydymffurfedd â'r ddeddfwriaeth gyfredol.
- Cytuno ar yr asesiad risg blynyddol a'r camau gweithredu gofynnol.

**Monitro a gwerthuso**

- Derbyn a chymeradwyo Cofnodion holl Gyfarfodydd y Bwrdd.
- Derbyn adroddiadau rheolaidd a monitro cynnydd.
- Derbyn adroddiadau a Chofnodion yr holl grwpiau gweithio.
- Derbyn adroddiadau ar ddata cynulleidfa a chyfranogiad, fel y gofynnir gan y Bwrdd, yn ogystal â materion eraill sy'n berthnasol i'r broses o wneud penderfyniadau.

**Perthnasoedd allanol**

- Cytuno ar safbwynt a chynrychiolaeth y Bwrdd yn ôl yr angen.
- Datblygu perthnasoedd sy'n ymwneud â chodi arian a nawdd.
- Ymgymryd â rôl eirioli weithredol ar ran y Torch.

**Ariannol**

- Cymeradwyo cyllidebau blynyddol.
- Cymeradwyo newidiadau mewn gwariant/gweithgarwch y cytunwyd arno a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar ragolygon ariannol.
- Cymeradwyo prosiectau cyfalaf mawr.
- Cymeradwyo ceisiadau am brydlesi a benthyciadau.
- Derbyn adroddiadau ariannol rheolaidd.
- Cymeradwyo penodi bancwyr.
- Argymell penodi archwilwyr i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

## Adnoddau Dynol

- Recriwtio a phenodi'r Prif Weithredwr a swyddi uwch eraill, fel y cytunwyd.
- Cytuno ar ddyfarniadau cyflog blynyddol ar gyfer yr holl swyddogion a staff.
- Pan fo'n briodol a/neu'n angenrheidiol, dylai'r Bwrdd geisio cyngor cyfreithiol allanol neu gyngor proffesiynol annibynnol; gall cynghorwyr o'r fath fynd i gyfarfodydd yn ôl yr angen.



Torch Theatre Company Ltd: Beauty and the Beast 2023

# SUT MAE GWNEUD CAIS

Gofynnir i ymgeiswyr ddarparu Cofnod Cyrhaeddiad (CV) cyfredol a datganiad ategol (wedi'i deipio, os yn bosibl, a heb fod yn hirach na dwy dudalen A4), ynghyd â ffurflen monitro Cyfle Cyfartal wedi'i llenwi.

Mae manylion y cais ar gael ar wefan Theatr Torch, ac yn cynnwys y ffurflen monitro Cyfle Cyfartal y gofynnir amdani - https://www.torchtheatre.co.uk/about-us/vacancies

Dylid anfon y CV, y llythyr eglurhaol (dim mwy na 2 dudalen A4) a'r ffurflen monitro Cyfle Cyfartal wedi'i chwblhau at y Uwch Reolwr – Busnes, drwy e-bost: guy@torchtheatre.co.uk

Marciwch eich e-bost fel: Cyfrinachol – Cais Aelod o'r Bwrdd

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **12 hanner dydd ar ddydd Llun, 9 Tachwedd 2026**

Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais drwy e-bost.

Ar gyfer yr ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer, bwriedir cynnal cyfweliadau ym mis Tachwedd 2026. Cadarnhewch a ydych ar gael ar gyfer cyfweliad yn ystod mis Tachwedd, ac a yw'n well gennych gael cyfweliad yn y prynhawn neu gyda'r hwyr.

Ar gyfer y rownd recriwtio hon, mae'r Bwrdd yn chwilio'n benodol am ymgeiswyr sydd ag arbenigedd mewn cyllid, codi arian a/neu brosiectau cyfalaf. Ceir manylion pellach am y sgiliau hyn, sy'n cael eu ffafrio, ar frig yn y pecyn hwn.

Ein nod yw sicrhau bod y grŵp o ymgeiswyr mor amrywiol â phosibl; anogir siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â phobl sydd â phrofiadau bywyd amrywiol ac sy'n meddu ar y sgiliau hyn, i ymgeisio.

Mae'r Bwrdd yn dymuno penodi nifer o Aelodau Bwrdd gwahanol sy'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol.

Bydd aelodau newydd y Bwrdd yn dilyn rhaglen ymsefydlu dan arweiniad Cadeirydd y Bwrdd. Mae cyfleoedd datblygu priodol ar gael i'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd, yn ogystal ag i aelodau unigol, yn ôl yr angen.

# STRWYTHUR SEFYDLIADOL

# Torch Theatre Organisation Chart (1st July 2026)

**Board of Management (09)**

| Elected Members: | Nominated Members: |
|---|---|
| Carol Mackintosh | Cllr Rhys Sinnett |
| Katrina Marsh | Cllr Yvonne Southwell |
| Annie Owston | |
| Max Mackintosh | |
| Sian-Elin Davies | |

Board of Management (08)
(see table opposite)

Interim Chief Executive Officer
Chelsey Gillard (1)

## Artistic

Artistic Director
Chelsey Gillard
(1)

Producing & Programming Co-ordinator
Jordan Dickin
(1)

Creative team during productions

## Youth & Community

Senior Manager Youth & Community
Timothy Howe (1)

## Technical

Senior Manager Technical
Andrew Sturley
(1)

Workshop Technician
Sam Wordsworth
(1)

Theatre Technician
VACANT
(1)

Casual Projectionist
Eliza Richards
(1)

Assistant Technical Manager
Simon Evans
(1)

Senior Technician
Jake Dyer
(1)

## Front of House

Senior Manager Front of House & Operations
Marcus Lewis (1)

Catering Manager
Lisa Canton
(1)

Chef
Alicia Todaro
(1)

Cleaners
Gloria Reynolds
Kath Mitchell
Judith Bell
(3)

Casual Cleaner
Barrie Knight
Maria-Teresa Algieri
(2)

Bar & Cafe Assistant

| | |
|---|---|
| Jenny Algeri | Karen Trice |
| Kathryn Trice | Chloe Burgess |
| Ben Hall | Shelley Canton |
| Lynsey McCarthy | Helen Jeffrey |
| Jenny Goddard | Katie Partis |
| Chloe Coleman | (11) |

Deputy FOH & Operations Manager
_VACANT
(1)

FOH Duty Manager
Chris Prosser
(1)

Casual Duty Manager
Bethan Jones
(1)

Box Office Assistant
Trina Williams
(1)

Box Office Assistant
Rachel Jones
(1)

FOH Volunteer Ushers
(70)

## Business

Senior Manager Business
Guy Woodham
(1)

## Marketing

Head of Marketing
Glenn Hewer
(1)

Marketing Officer
Emma Cox
(1)

Marketing Officer
VACANT
(1)

Graphic Designer
Amanda Griffiths
(1)

Marketing Consultant
Anwen Francis
(1)

## Finance

Senior Manager Finance
Victoria Goddard
(1)

Finance Officer
Kate Miller
(1)

Staff Head Count at 01/07/2026 **37**
(21 permanent, 1 fixed term and 15 casual)
Consultant/Freelancer Head Count at 01/07/26 **1**
Volunteers Head Count at 01/07/26 **70**

| | |
|---|---|
| PERMANENT FULL TIME | VACANT |
| PERMANENT PART TIME | VOLUNTEER |
| FIXED TERM CONTRACT | CONTRACTOR |
| CASUAL | SENIOR MANAGEMENT TEAM (SMT) |
| APPRENTICE | |


# GWELEDIGAETH, CENHADAETH A GWERTHOEDD THEATR TORCH

## GWELEDIGAETH

Bod yn fan disglair o greadigrwydd ar gyfer y celfyddydau perfformio yng ngorllewin Cymru – gan ysbrydoli artistiaid, diddanu cynulleidfaoedd a chysylltu cymunedau.

## CENHADAETH

Creu cynyrchiadau o ansawdd uchel a chysylltu ar draws cymunedau mewn modd cynaliadwy




*Creu*- Rydym yn creu ac yn curadu cynyrchiadau theatr o ansawdd uchel, profiadau cyfranogi a digwyddiadau i ysbrydoli, diddanu, swyno a herio.

*Cysylltu*- Rydym yn cysylltu sefydliadau celfyddydol, cymunedau, sefydliadau addysgol a busnesau er budd pawb.

*Cynnal*- Bydd popeth a wnawn yn cael ei ategu gan ein hymdrech i sicrhau cynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol, ac yn diogelu dyfodol Sir Benfro, Cymru a'r byd ehangach.

## GWERTHOEDD

*Y Gorllewin sydd Orau*

Mae ein cartref yn Aberdaugleddau yn ddechrau'r llinell; rydym yn falch o'r lle rydym wedi'n lleoli ynddo, ac rydym yn parchu ieithoedd, diwylliant a phobl Sir Benfro.

*Croeso/Welcome*- Rydym yn ymdrechu i wneud ein gweithgareddau a'n hadeilad yn hygyrch ac yn groesawgar i bawb sy'n dymuno cymryd rhan. Rydym yn dathlu'r safbwyntiau a'r sgiliau unigryw y mae pob person yn eu dwyn gyda nhw.

*ChwaraeTeg/Fairplay*– Ein nod yw bod yn deg ym mhopeth a wnawn – gan gynnwys arferion gwrth-hiliol, gwrth-ableistaidd a chynhwysol, ynghyd â thâl ac amodau gwaith teg – a sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn dryloyw.

# GWYBODAETH AM THEATR TORCH

Sefydlwyd Theatr Torch Cyd (Y Torch) ym 1977, ac mae'n un o ddim ond tair theatr yng Nghymru sydd â lleoliad parhaol ac sy'n cynhyrchu eu gwaith eu hunain – ochr yn ochr â Theatr Sherman yng Nghaerdydd a Theatr Clwyd. Mae'n cynnwys Prif Awditoriwm gyda 300 o seddi, Theatr Stiwdio gyda 102 o seddi, oriel gelf bwrpasol – Oriel Joanna Field, a Café Torch. Bob blwyddyn, mae'r Torch yn cynnig dros 1,300 o sioeau, ffilmiau, arddangosfeydd celf a darllediadau byw i dros 80,000 o aelodau'r gynulleidfa. Mae'r rhaglen yn cynnig amrywiaeth eang, gan gynnwys drama, comedi, cerddoriaeth fyw, bale, dawns, sioeau i'r teulu, opera a gwaith newydd; yn ogystal â hyn, mae'r theatr yn cynhyrchu pantomeim dros wyliau'r Nadolig.

Chelsey Gillard, y Cyfarwyddwr Artistig a Phrif Swyddog Gweithredol Dros Dro sy'n arwain y Torch. Mae gan y Torch hanes cyfoethog o gyflwyno sioeau clodwiw gyda chynyrchiadau yn y gorffennol yn cynnwys *Private Lives, Of Mice &* Men,*Grav*, *One Man, Two Guvnors, The Wood, One Flew Over the Cuckoo's Nest, The Turn of the Screw, The Hired Man, Neville's Island, Oh Hello!, The Little Shop of Horrors* ac *An Inspector Calls*.

Mae'r Torch yn rhan annatod o gymuned artistig a chreadigol Sir Benfro a hoffem feddwl bod yr uchod yn debyg iawn i'r hyn y byddech chi'n disgwyl i theatr ei wneud. Er hynny, mae ein gweithgareddau'n mynd ymhellach o lawer ac yn cynnwys prosiectau sy'n cefnogi agenda Iechyd a Llesiant Llywodraeth Cymru a rhagor o ymgysylltiad cymunedol gan gynnwys Theatr Ieuenctid ar gyfer Lefelau Iau ac Uwch, cyfleoedd ymgysylltu ieuenctid, Grwpiau Mudiad Anabledd ac mae hefyd yn gartref i Gôr Cysur Sir Benfro gan Opera Cenedlaethol Cymru sydd wedi ennill clod gan y beirniaid. Mae'r Torch hefyd yn cynhyrchu Sinema Machlud Haul, rhaglen sinema haf awyr agored sy'n ymweld â rhai o leoliadau mwyaf eiconig Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin.



Cwmni Theatr Torch: Cynhyrchiad Theatr Ieuenctid o 'Wind in the Willows' 2024

# GWYBODAETH AM ABERDAUGLEDDAU



Wedi'i lleoli yn nhref bysgota Aberdaugleddau gynt, Sir Benfro, mae'r Torch yn adeilad eiconig yn y dirwedd leol. Gan ei fod wedi cael ei henw'n wreiddiol oherwydd cysylltiadau â'r diwydiant olew a nwy, mae'r fflam yn logo't Torch yn dathlu hanes diwydiannol cryf Aberdaugleddau a'r ardal gyfagos.

Heddiw, mae'r Torch yn cyflogi 21 aelod o staff parhaol – rhai llawnamser a rhai rhan-amser – yn ogystal â nifer o staff achlysurol. Mae ganddi hefyd grŵp anhygoel o dros 70 o wirfoddolwyr sy'n cynnig help llaw o amgylch y ganolfan.

Mae gan Aberdaugleddau ei hun boblogaeth o 13,000, ac mae'n un o'r trefi mwyaf yn ne-orllewin Cymru. Datblygwyd y dref yn wreiddiol ar gyfer y diwydiant hela morfilod ddiwedd yr 17eg ganrif. Oherwydd ei lleoliad ar lannau'r aber mwyaf yng Nghymru – ac un o'r harbyrau naturiol dyfnaf yn y byd – mae ei hanes yn gysylltiedig yn agos â'r môr.

Heddiw, mae gan y dref farina bywiog – sy'n cynnwys gwesty 'Ty' (partner corfforaethol) gyda 100 o ystafelloedd – yn ogystal â Stryd Fawr fywiog ac amrywiaeth o atyniadau, gan gynnwys amgueddfa, canolfan fowlio a chanolfan hamdden.



Mae Theatr Torch yn gwmni cyfyngedig sydd â statws elusennol, ac yn theatr a ariennir yn gyhoeddus gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, Y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Tref Aberdaugleddau.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government